



SPIRIT
& COMMUNITY

Sesiwn 6: Ysbryd & Chymuned

Arweiniad Grwp Bychan

Cynhesu (cysylltu â'r thema)

Pa mor dda ydych yn nabod eich gilydd? Chwaraewch gêm o ddau wirionedd ac un celwydd. Dewiswch gwpl o bobl i rannu datganiadau sydd yn wir amdanynt ac un sydd yn gelwydd. Nod y gêm yw bod eraill yn gweithio allan, trwy gwestiynu, pa ddatganiadau sydd yn gelwydd.

Neges (Fideo cryno)

Gwylwch y fideo gan Jos Edwards sydd yn crynhoi'r thema fawr o'r Beibl a sut mae'n berthnasol i'n bwydau.

Darlleniadau beiblaidd (i'w cyd-darllen)

Actau 1.1–11, Actau 2.1–4, 17–18, 1 Corinthiaid 3.16, Actau 2.36–47, Galatiaid 3.28, Rhufeiniaid 1.1–17, Actau 20.36–37, Actau 28.30–31.

Amser trafod

- Ym mha ffordd y mae cymuned go iawn yn her i'n diwylliant modern? Pam bod cymaint ohonom yn profi unigrwydd yn yr oes yma sydd mor ynghlwm?
- Beth yw eich profiad o'r Ysbryd Glân? Sut fedrwch chi agor eich bywyd i fyny i'w bresenoldeb grymusol?
- Mae llyfr yr Actau yndweud hanes yr eglwys fore. Beth oedd yn gwneud eu bywyd cymunedol mor radical a deniadol? (e.e. Actau 2.42–7, Galatiaid 3.28)?
- Beth sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed y gair 'eglwys'? Sut mae'r eglwys fore yn yr Actau yn eich helpu i ail-ddychmygu sut beth all cymuned Gristnogol fod?
- Mae cenhadaeth Actau yn parhau heddiw trwom ni> Rydym i fod i arbrofi'n ffyddlon. Ym mha ffyrdd ymarferol y medrwch chwarae eich rhan i wneud gwahaniaeth lle rydych?
- Ar y cyfan, sut y mae'r darn hwn ar Ysbryd a chymuned wedi eich helpu i wneud synnwyr o fywyd?

Amser ymateb (adlewyrchu a gweddio)

Ystyriwch y dyfyniad hwn

'Find a community, a small group who can lovingly fuel your dreams and puncture your illusions. Find friends and form a family who are willing to see grace at work in one another's lives ... then go make something of the world together.' (Andy Crouch, *Culture Making: Recovering our Creative Calling*)

A ydym ni'r math hwn o gymuned? Beth allai olygu i ni fel cymuned i wneud rhywbeth o'r byd gyda'n gilydd?

Nodwch un ffordd y medrwch chi wneud eich rhan. Dechreuwch mewn ffordd fach sy'n bosib ond penderfynwch gynnwys hwn yn eich bywydau a dal ati.

Cynnwys dydd

Parhewch y daith yr wythnos hon trwy ddarllen y penodau dyddiol a'r Ysgrhythrau yn llyfr y gyfres gan Andrew Ollerton, *The Bible: A Story that makes sense of life* (Hodder).

